# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Abertawe | Adenydd | Bydd Adenydd yn Abertawe yn cynnal peilot chwe wythnos gyda'r nod o helpu plant â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, heriau niwro-ddatblygol, neu sydd mewn gofal, i wella eu gallu i reoli eu hemosiynau ac ymddygiad mewn modd cadarnhaol. Bydd £9,999 yn ariannu hyfforddiant staff, rhaglen Ymyrraeth Ymlyniad Synhwyraidd chwe wythnos, costau cynllunio a gwerthuso. |
| Abertawe | Canolfan Gymunedol Y Clas | Bydd Canolfan Gymunedol Y Clas yn adnewyddu ardal awyr agored i ddarparu gardd er mwyn i'r gymuned allu tyfu bwyd gyda'i gilydd. Bydd £8,650 yn ariannu ffensys, gwlâu wedi'u codi, lloriau, goleuadau awyr agored, lluniaeth a thaflenni. |
| Abertawe | Friends of Primrose Park | Bydd Friends of Primrose Park yn Abertawe yn cynnal cyfres o weithgareddau yn ystod y gwyliau haf i roi cyfle i blant, teuluoedd a'r gymuned ehangach ddod ynghyd ac adeiladu perthnasoedd. Bydd £10,000 yn talu am weithgareddau gwyliau, llyfrynnau, a diwrnod hwyl cymunedol. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Abertawe | Paul Popham Fund, Renal Support Wales | Bydd Paul Popham Fund, Renal Support Wales yn creu rhwydwaith o gefnogaeth i helpu cleifion i ymdrin â'r materion maen nhw'n eu hwynebu, gan gynnwys fforwm ar-lein y gellir cael mynediad ato ar unrhyw adeg. Bydd £9,700 yn ariannu datblygu'r wefan, fforwm ar-lein, cyfarpar TG a Chynhadledd Addysg i Gleifion. |
| Abertawe | Paul Popham Fund, Renal Support Wales | Bydd y prosiect yn ehangu gwasanaeth ymgyfeillio a chwnsela presennol y mudiad ar draws De Cymru, Dwyrain Cymru a rhannu o Ganolbarth Cymru. Mae'r gwasanaeth yn hyfforddi cleifion yr aren a'u gofalwyr i fod yn Ymgyfeillwyr Gwirfoddol a fydd yn siapio, dylunio ac yn cyflwyno gwasanaeth sy'n darparu cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth a gleifion aren newydd a'u teuluoedd, a'r rhai sy'n profi newid mewn amgylchiadau. Dros dair blynedd bydd y grant (£99,175) yn ariannu Rheolwr Prosiect amser llawn, recriwtio, hyfforddi, teithio, treuliau, monitro a gwerthuso a chostau gwirfoddoli. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Abertawe | RUMBA ENTERTAINMENT LIMITED | Bydd Rumba Entertainment Limited yn Abertawe yn peilota prosiect i ddarparu sgiliau swydd a chyfleoedd gwirfoddoli i bobl sydd wedi bod allan o waith am gyfnod hir ac i bobl sydd angen mwy o brofiad gwaith. Bydd £10,000 yn ariannu treuliau gwirfoddolwyr, deunyddiau, cydlynydd, costau gweinyddu a deunyddiau cyhoeddusrwydd. |
| Abertawe | Swansea Mind Abertawe | Bydd Swansea Mind Abertawe yn adeiladu ar brosiect peilot sy'n gweithio gyda phobl ifanc 11 i 21 oed sydd wedi'u hadnabod gyda lles emosiynol gwael. Bydd y prosiect yn cynnwys pobl ifanc mewn gweithdai grŵp, gwybodaeth a rhywfaint o gefnogaeth un i un. Mae'r prosiect yn anelu hefyd at greu buddion ar gyfer rhieni, athrawon a staff/gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc a darparu ymwybyddiaeth bellach o broblemau iechyd meddwl. Bydd yr ymgeisydd yn gweithio gydag ysgolion cyfun a lleoliadau cymunedol ar draws Abertawe. Bydd y grant o £99,777, dros dair blynedd, yn talu am gyflogau, hyfforddiant, treuliau, marchnata, monitro, deunyddiau gweithgareddau ac unrhyw oruchwyliaeth glinigol ofynnol. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Abertawe | Swansea Pride | Bydd Swansea Pride yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng Pobl LHDT+ a'r gymuned ehangach. Bydd £4,265 yn ariannu gwirfoddolwyr, adloniant, marchnata, deunydd ysgrifennu a nwyddau swyddfa, ystafell/lleoliad ac yswiriant. |
| Abertawe | Talking Hands Deaf Children and Young People | Bydd Talking Hands Deaf Children and Young People yn Abertawe yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl i rieni plant byddar ac oedolion byddar, gan ddarparu cyngor ac atgyfeiriadau at ffynonellau eraill o gefnogaeth. Bydd £10,000 yn talu am gostau cysylltiedig gan gynnwys tiwtoriaid, costau gweinyddu, cyfieithwyr ar y pryd, llety a chynhaliaeth. |
| Abertawe | Village Voices | Bydd Village Voices yn Abertawe yn cynyddu aelodaeth eu côr, gan ddod â phobl o gymunedau gwledig ynghyd a lleihau unigedd. Bydd £4,300 yn ariannu gwisgoedd, bysellfwrdd a system uchelseinyddion, marchnata, cludiant a chostau ychwanegol cyngherddau. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Abertawe | Ymddiriedolaeth Eglwys Linden | Bydd Ymddiriedolaeth Eglwys Linden yn Abertawe yn creu ffilmiau yn dweud straeon pobl ifanc sydd wedi goresgyn trallod, gan orffen mewn digwyddiad o ddathlu yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Cymru, a fydd yn dod â chymunedau ynghyd. Bydd £8,500 yn ariannu staff, drôn, costau cyfleustodau/rhedeg, a chostau digwyddiad. |
| Blaenau Gwent | Clwb Gweithgareddau Integredig Cymoedd Gwent | Bydd Clwb Gweithgareddau Integredig Cymoedd Gwent yn mynd â'u haelodau, sydd ag anableddau dysgu a phroblemau symudedd, ar daith i ffwrdd i wella cymdeithasoli ac i roi seibiant i'w gofalwyr. Bydd £1,700 yn ariannu trafnidiaeth, gweithgareddau, lleoliad a chostau gwirfoddolwyr. |
| Blaenau Gwent | Gŵyl Steelhouse i Blant | Bydd Gŵyl Steelhouse i Blant ym Mlaenau Gwent yn cynnal digwyddiadau am ddim i'r teulu ar gyfer y gymuned leol yn ystod penwythnos Gŵyl Gerddoriaeth Roc Ryngwladol Cymru i ddod â phobl ynghyd ac adeiladu cysylltiadau cryfion. Bydd £5,000 yn ariannu dodrefn, gasebos, cyfarpar, gwefan a masgot. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | Made in Tredegar | Bydd Made in Tredegar ym Mlaenau Gwent yn ymgysylltu ac yn uwchsgilio pobl ddi-waith, leol trwy eu recriwtio fel gwirfoddolwyr newydd a chynnal cyrsiau cyfryngau achrededig. Bydd £9,570 yn ariannu costau staff, meddalwedd, treuliau gwirfoddolwyr, rhent a chyfleustodau. |
| Bro Morgannwg | Cwmni Buddiant Cymunedol Darlledu Bro Morgannwg | Bydd Cwmni Buddiant Cymunedol Darlledu Bro Morgannwg yn Y Barri yn adnewyddu eu stiwdio ac yn recriwtio mwy o wirfoddolwyr. Bydd £9,994 yn ariannu cyfarpar stiwdio a TG, dodrefn, marchnata a chostau recriwtio. |
| Caerdydd | Capel Efengylaidd Tredelerch | Bydd Capel Efengylaidd Tredelerch yng Nghaerdydd yn rhedeg canolfan ieuenctid symudol i gyrraedd pobl ifanc yn eu cymdogaethau lleol. Bydd £9,880 yn ariannu hyfforddi staff a gwirfoddolwyr, cyflogau gweithiwr datblygu a rheolwr allgymorth ieuenctid, adnoddau, deunyddiau hyfforddi, lluniaeth a chyhoeddusrwydd. |

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Caerdydd | Clwb Bocsio Phoenix a Gweithgareddau Cymunedol Llanrhymni | Bydd Clwb Bocsio Phoenix a Gweithgareddau Cymunedol Llanrhymni yng Nghaerdydd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon, addysgol, hamdden a bwyta'n iach i blant 6-16 oed a'u teuluoedd yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Bydd £9,000 yn ariannu bwyd, deunyddiau gweithdy, costau staff a chyfleustodau. |
| Caerdydd | Cwmni Buddiannau Cymunedol Grŵp Gweithgareddau Therapiwtig | Bydd Cwmni Buddiannau Cymunedol Grŵp Gweithgareddau Therapiwtig yng Nghaerdydd yn darparu sesiynau therapi gyda chymorth anifeiliaid i bobl ifanc gyda phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Bydd £10,000 yn ariannu costau staff, hyfforddiant, yswiriant a chyfarpar. |
| Caerdydd | Hatch Collective | Bydd Hatch Collective yng Nghaerdydd yn cyflwyno gweithdai celf cymunedol sy'n helpu pobl hŷn i gymdeithasu a dysgu sgiliau creadigol. Bydd £9,752 yn ariannu ffioedd artistiaid, cyfarpar gweithdai, hurio ystafelloedd, digwyddiadau, costau gweinyddu a chyhoeddusrwydd. |

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Caerdydd | The Dusty Shed | Bydd The Dusty Shed yng Nghaerdydd yn cynnig ystod o gyrsiau hyfforddiant ymarferol, yn seiliedig ar weithgareddau, i helpu pobl sy'n dioddef o unigrwydd ac unigedd i wella'u hiechyd a lles. Bydd £10,000 yn ariannu cyflogau gweithiwr datblygu, crefftwyr medrus, deunyddiau, trydan ac yswiriant. |
| Caerffili | Cyngor Cymuned Maesycwmer | Bydd Cyngor Cymuned Maesycwmer yng Nghaerffili yn rhedeg cynllun haf a fydd yn cynnwys sioe dalentau gan y plant, eu rhieni a'r gymuned ehangach, yn ogystal â gweithdai lle byddant yn creu llyfr gyda'i gilydd i helpu i fynd i'r afael â bwlio. Bydd £2,400 yn ariannu sioe dalentau a pharti, gweithdai llyfrau, cynhyrchu llyfr a digwyddiad i lansio'r llyfr. |
| Caerffili | Ysgol Gynradd Ty'n y Wern | Bydd Ysgol Gynradd Ty'n y Wern yng Nghaerffili'n ehangu eu Bistro llwyddiannus trwy gynnal gweithdai cymunedol sy'n pontio'r cenedlaethau, a datblygu gardd fwytadwy i hyrwyddo tyfu llysiau a bwyta'n iach. Bydd y grŵp hefyd yn rhedeg gorsaf radio gymunedol i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Bydd £10,000 yn talu am yr orsaf radio, i ddatblygu'r ardd ac am adnoddau'r bistro. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Casnewydd | Authentic Voices DLB Limited | Bydd Authentic Voices DLB Limited yng Nghasnewydd yn cynnal cynhadledd ddeuddydd i ddod â goroeswyr cam-drin domestig at ei gilydd. Bydd £10,000 yn ariannu cynhadledd ddeuddydd, teithio, gweinyddiaeth a marchnata, treuliau gwirfoddolwyr a chyfleustodau. |
| Casnewydd | The Olive Branch Day Centre | Bydd The Olive Branch Day Centre yng Nghasnewydd yn cynnig gwasanaethau cefnogaeth i bobl ddigartref ac mewn llety bregus, y sawl sy'n cysgu allan, a gweithwyr rhyw. Bydd £10,000 yn ariannu costau rhedeg gan gynnwys cyflogau. |
| Castell-nedd Port Talbot | Attend South Wales | Bydd Attend South Wales yn Llanelli yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i helpu pobl sy'n profi salwch meddwl i ddod yn llai ynysedig ac i chwarae mwy o ran yn eu cymuned trwy wirfoddoli. Bydd £9,676 yn ariannu hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl, lleoliad, lluniaeth, cyhoeddusrwydd, teithio a gweinyddiaeth. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | South Wales Soccability | Bydd South Wales Soccability ym Mhort Talbot yn prynu cyfarpar newydd ac yn recriwtio aelodau newydd, gan ddarparu man i bobl ag anableddau i gadw'n heini ac i gwrdd â phobl newydd. Bydd £9,900 yn ariannu costau hyfforddwyr, lleoliad, nwyddau swyddfa, trafnidiaeth, a chyfarpar hyfforddi. |
| Castell-nedd Port Talbot | Ysgol Gynradd Crynallt | Bydd Ysgol Gynradd Crynallt yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gweithio gyda phlant bregus a'u rhieni gan gynnig cefnogaeth iddynt mewn sawl ffordd megis llesiant meddwl a chorfforol, rheoli dicter a hunanhyder. Bydd £9,920 yn talu am fentor llesiant, adnoddau i rieni a chostau gweithdai gwyliau. |
| Ceredigion | Eglwys Newydd Ysgoldy Goch Church Hall | Bydd Eglwys Newydd Ysgoldy Goch Church Hall yng Ngheredigion yn gwella'r unig neuadd gymunedol yn eu hardal, er mwyn sicrhau bod gan drigolion gyfleusterau digonol i gryfhau perthnasoedd a gwella'u lles. Bydd £10,000 yn ariannu teils acwstig. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Conwy | Cerrigydrudion | Bydd Cerrigydrudion yng Nghonwy yn sefydlu cynllun rhannu lifft cymunedol dan arweiniad gwirfoddolwyr i alluogi unigolion ynysig i gael mynediad at wasanaethau. Bydd £10,000 yn ariannu costau cludiant, hyfforddiant a threuliau gwirfoddolwyr, cyhoeddusrwydd, digwyddiad cymunedol, costau ffôn, deunydd ysgrifennu, yswiriant a chyfarpar TG. |
| Gwynedd | Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth | Bydd Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth yng Ngwynedd yn amnewid eu llawr cyfredol wedi i'r galw uchel ar eu cyfleusterau gan grwpiau cymunedol gael effaith andwyol.  Bydd £6,357 yn talu am lawr newydd. |
| Gwynedd | The Abbey Road Centre | Bydd The Abbey Road Centre ym Mangor yn datblygu eu gardd i alluogi i bobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl  i ddysgu sgiliau tyfu, coginio a chrefft. Bydd £7,647 yn ariannu deunyddiau garddio, cyfarpar swyddfa a deunydd ysgrifennu. |

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Gwynedd | Y Gwarchodfa Cyf. | Bydd Y Gwarchodfa Cyf. yng Ngarndolbenmaen yn adeiladu gwlâu wedi'u codi a fydd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn ar fferm ar brydles sy'n cefnogi plant ac oedolion bregus. Bydd £9,999 yn ariannu gwlâu wedi'u codi, offer, cyfarpar, planhigion a threuliau gwirfoddolwyr. |
| Gwynedd | Ysgol Beuno Sant | Bydd Ysgol Beuno Sant yn Y Bala yn creu tapestri i ddathlu hanes a dyfodol yr uniad o dair cymuned ysgol gynradd. Bydd £5,000 yn ariannu cyflwyniad deuddydd i'r prosiect ynghyd ag artist preswyl am wythnos. |
| Merthyr Tudful | Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful | Bydd Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn prynu byrddau a chadeiriau newydd er mwyn darparu cyfleusterau gwell i ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r ganolfan i helpu i gynyddu eu hyder a chyfleoedd yn ymwneud â'r Gymraeg. Bydd £10,000 yn talu am fyrddau a chadeiriau. |

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Merthyr Tudful | International Links (Global) Ltd | Bydd International Links (Global) Ltd yn cynnig sesiynau llesiant cadarnhaol i bobl ifanc ym Merthyr Tudful ac yn cael gwared ar rwystrau i gymryd rhan mewn ffyrdd actif o fyw. Bydd £7,120 yn ariannu staffio, milltiredd, deunyddiau gweithdai, cyhoeddusrwydd a chostau seremoni wobrwyo. |
| Merthyr Tudful | Safer Merthyr Tydfil Limited | Bydd Safer Merthyr Tydfil Limited yn cefnogi pobl hŷn sy'n teimlo'n unig, yn ynysedig neu wedi'i hymyleiddio i ailgysylltu â'u cymuned trwy wirfoddoli. Bydd £9,959 yn talu am gostau staff, costau prosiect a threuliau gwirfoddolwyr. |
| Powys | Coetiroedd Cymunedol Llangatwg Cyf | Bydd Coetiroedd Cymunedol Llangatwg Cyf ym Mhowys yn darparu toiledau hygyrch i wirfoddolwyr ac ymwelwyr i'r coetir a'r ddôl maen nhw'n eu rheoli. Bydd £6,730 yn ariannu toiled compost, gweinyddiaeth a chostau digwyddiadau. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Powys | Cwmni Buddiannau Cymunedol Cyfryngu Dyffryn Gwy | Bydd Cwmni Buddiannau Cymunedol Cyfryngu Dyffryn Gwy yn hyfforddi 64 o blant o dair ysgol gynradd leol, a'r ysgol uwchradd maen nhw'n bwydo i mewn iddyn nhw, fel Cyfryngwyr Cyfoedion i greu eu gwasanaeth cyfryngu cymunedol eu hunain o fewn eu hysgol. Bydd £9,833 yn ariannu staff, hyfforddiant, cyfieithu, fideo hyfforddi a nwyddau swyddfa. |
| Powys | Cwmni Buddiannau Cymunedol The Game Change Project | Bydd Cwmni Buddiannau Cymunedol The Game Change Project ym Mhowys yn darparu cyfle i bobl ifanc mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol â'r cyfle i ennill sgiliau gwerthfawr a hyfforddiant achrededig. Bydd £9,605 yn ariannu ystafell ddosbarth symudol, cyfarpar swyddfa, adnoddau a thystysgrifau, treuliau staff a gwirfoddolwyr, hysbysebu a chludiant. |
| Powys | Mens' Shed Trefyclo | Bydd Mens' Shed Trefyclo ym Mhowys yn gwella'u cyfleusterau ac yn ehangu eu haelodaeth sy'n darparu man diogel i ddynion drafod materion yn ymwneud ag unigrwydd, iselder ac unigedd. Bydd £1,500 yn talu am offer pŵer. |

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | Canolfan Cyswllt Plant Pontypridd Cyf | Bydd Canolfan Cyswllt Plant Pontypridd Cyf yn Rhondda Cynon Taf yn sefydlu prosiect cyswllt dan arolygiaeth i helpu cefnogi plant lleol a'u teuluoedd ar gyfnodau o ysgariad neu wahaniad anadferadwy mewn teulu. Bydd £8,000 yn ariannu gweithiwr, hyfforddiant a rhent. |
| Rhondda Cynon Taf | Cymdeithas Tai Gwarchod Garth Wen | Bydd Cymdeithas Tai Gwarchod Garth Wen yn Rhondda Cynon Taf yn trefnu gweithgareddau i denantiaid a'r gymuned ehangach, i ganiatáu iddynt gadw bywyd cymdeithasol gweithgar a chynhwysol yn eu canolfan tai gwarchod, er mwyn helpu i atal unigrwydd ac unigedd. Bydd £6,680 yn ariannu costau teithiau a thocynnau theatr, adloniant mewnol a chostau cyfarpar garddio. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | Drive | Bydd Drive, sy'n darparu cefnogaeth arbenigol i bobl gydag amrediad eang o anghenion yn Rhondda Cynon Taf, yn rhedeg sesiynau côr wythnosol ar gyfer eu defnyddwyr gwasanaeth, sy'n cynnwys pobl gydag anableddau corfforol a dysgu, problemau iechyd meddwl, anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth, anghenion iechyd cymhleth a dementia. Bydd £8,175 yn ariannu arweinydd y côr, cyfeilydd, lleoliad, treuliau'r gweithdy a chostau perfformiad. |
| Rhondda Cynon Taf | Sefydliad Menywod Rhondda Fach | Mae Sefydliad Menywod Rhondda Fach yn Rhondda Cynon Taf yn rhedeg cyfres o weithgareddau yn eu cymuned i helpu i liniaru unigrwydd. Bydd £6,550 yn ariannu costau yn ymwneud â digwyddiadau, gan gynnwys siaradwyr, cludiant a deunydd ysgrifennu. |
| Sir Benfro | The Harrier Association | Bydd The Harrier Association yn Sir Benfro yn adnewyddu eu toiledau menywod, er mwyn darparu cyfleusterau gwell ar gyfer yr amryw grwpiau cymunedol sy'n defnyddio'r adeilad. Bydd £10,000 yn ariannu toiledau newydd. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Sir Ddinbych | Cyngor Tref Rhuthun | Bydd Cyngor Tref Rhuthun yn adnewyddu'r Hen Lys Barn yn ganolfan ddinesig, gymunedol ac i ymwelwyr. Bydd £10,000 yn ariannu adnewyddu'r adeilad. |
| Sir Ddinbych | Grŵp Cymunedol Rhuddlan | Bydd Grŵp Cymunedol Rhuddlan yn Sir Ddinbych yn gwneud y dref yn lle mwy croesawgar trwy gynnal gwelliannau amgylcheddol ac i'r cynefin naturiol gan ddefnyddio gwirfoddolwyr i wneud y tasgau hynny. Bydd £2,700 yn ariannu bocsys adar, mapiau, hysbysfyrddau, cyfarpar garddio a phlanhigion. |
| Sir Ddinbych | Hiraddug Childcare | Bydd Hiraddug Childcare yn Y Rhyl yn adeiladu gardd synhwyraidd ar gyfer y grŵp chwarae. Bydd £7,800 yn ariannu ffensys, arwyneb chwarae, paneli cerddorol, y gwaith cyflwyno, gosod cyfarpar a TAW. |
| Sir Gâr | Trimsaran Forum/Pentref Trimsaran | Bydd Trimsaran Forum/Pentref Trimsaran yn Sir Gâr yn uwchraddio eu cyfleusterau sy'n hanfodol o ran caniatáu i aelodau o'r gymuned i gymdeithasu a gwella'u lles. Bydd £9,964 yn talu i osod bar brechdanau, cownter arddangos, boeler, byrddau gwaith, oergell, dodrefn a pheiriant golchi llestri. |

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Sir Fynwy | Canolfan Bridges | Bydd Bridges Centre yn cyflwyno'r prosiect 'Quest Busters' yn Sir Fynwy gyda MAGIC (Monmouthshire All Ability Group for Inclusive Communities). Bydd y prosiect yn darparu gweithgareddau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol rhwng 8 a 14 oed mewn lle diogel a fydd yn hyrwyddo lles plant. Bydd y prosiect yn gweithio gyda 150 o blant a phobl ifanc i gyrchu profiadau cadarnhaol wedi'u harwain gan anghenion mewn lleoliad cymunedol a gefnogir. Bydd 100 o deuluoedd yn elwa o hyfforddiant a chefnogaeth hefyd. Mae'r grant (£100,000) dros ddwy flynedd ar gyfer cyflogau, costau recriwtio, hyfforddiant, treuliau teithio, llety, marchnata, costau gweithgareddau a chyfarpar. Bydd yn ariannu cydlynydd prosiect amser llawn a gweinyddwr rhan-amser hefyd. |

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Sir Fynwy | Clwb ac Ystafell Ddarllen Llanhenwg | Bydd Clwb ac Ystafell Ddarllen Llanhenwg yn Sir Fynwy yn adnewyddu eu neuadd er mwyn iddynt allu rhedeg mwy o'r gweithgareddau a ofynnwyd amdanynt gan eu cymuned, ac yn gwneud yr adeilad yn fwy hygyrch i bobl sydd ag anableddau. Bydd £10,000 yn ariannu toiled anabl, adnewyddu'r gegin a llenni. |
| Sir Fynwy | Pwyllgor Carnifal Cymuned Cil-y-coed | Bydd Pwyllgor Carnifal Cymuned Cil-y-coed yn Sir Fynwy yn defnyddio'r grant i weithio gyda phobl leol i redeg eu digwyddiad, gan ddod â'r gymuned gyfan at ei gilydd. Bydd £4,100 yn ariannu cyfarpar y digwyddiad. |
| Sir Fynwy | Ymddiriedolaeth Elusennol The Bridge To Cross | Bydd Ymddiriedolaeth Elusennol The Bridge To Cross yn Y Fenni yn prynu cyfarpar TG i helpu i ddarparu gwasanaethau hamdden a chyflogadwyedd i bobl ifanc ddifreintiedig. Bydd £7,520 yn talu am gyfarpar TG, gosod y cyfarpar, gwarantau, a chefnogaeth dechnegol. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y prosiect | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Sir y Fflint | Neuadd Bentref Kinnerton | Bydd Neuadd Bentref Kinnerton yn Sir y Fflint yn sefydlu Clwb Sinema ar gyfer y gymuned i wella rhyngweithio a pherthnasoedd yn y pentref. Bydd £10,000 yn ariannu taflunydd, sgrin, system seinyddion, cadeiriau a chyhoeddusrwydd. |
| Sir y Fflint | Ysgol Bro Carmel | Bydd Ysgol Bro Carmel yn Sir y Fflint yn annog dysgu awyr agored ac yn creu cysgodfa y bydd amrediad eang o grwpiau cymunedol yn gallu ei ddefnyddio. Bydd £10,000 yn ariannu cysgodfa awyr ac yn, meinciau a chyfarpar. |
| Torfaen | The Cosy Kitchen | Bydd The Cosy Kitchen yn Nhorfaen yn dod â'u cymuned ynghyd i ddysgu mwy am fwyd trwy flasu bwydydd newydd, dysgu sut i goginio prydau iachus o fwyd a mynychu gwyliau bwyd. Bydd £9,000 yn talu am ddigwyddiad bwyd rhyngwladol, deunyddiau ysgrifennu, trafnidiaeth, crochenwaith a chyllyll a ffyrc. |
| Wrecsam | CAIS Limited | Bydd CAIS Limited yn darparu sesiynau côr yn Wrecsam i ddod â'r gymuned ynghyd, i leihau unigedd cymdeithasol ac i gynorthwyo gydag adferiad pobl sydd â phroblemau cam-drin sylweddau. Bydd £9,300 yn ariannu cyfarwyddwr côr. |